
# CRYNODEB O ARFARNIAD A CHYNLLUN GWELLA YSGOL I D HOOSON




Fel ysgol rydym yn adolygu'n gyson ble'r ydym fel ysgol a sut y gallwn wella'n barhaus i sicrhau bod ein dysgwyr yn cael yr addysg orau yn Ysgol I D Hooson. Drwy hunan arfarnu ac adolygu rheolaidd rydym yn adnabod ein blaenoriaethau allweddol i wella.

## Arfarniad Ysgol

**Cryfderau:**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus. Mae ganddi ethos ofalgar a chynhwysol.
Mae gweledigaeth yn ei lle sy'n cyd-fynd a egwyddorion CIG. (Cwricwlm i Gymru)
Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o bob gallu yn gwneud cynnydd da ar draws yr ysgol o'u camau cychwynnol.
Mae sgiliau digidol y mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu'n dda, ac mae disgyblion yn defnyddio'r sgiliau hyn yn effeithiol ar draws meysydd dysgu a phrofiad.
Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau eu gwersi ac yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu.
Mae ystod o gyfleoedd addysgol i ddysgwyr.
Mae cyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu at fywyd ysgol drwy wahanol gynghorau.
Ceir perthynas broffesiynol dda rhwng disgyblion a staff.
Mae perthynas dda rhwng yr ysgol a rhieni a gofalwyr.
Mae ystafelloedd dosbarth, coridorau yn cynnwys arddangosfeydd deiniadol a symbylus sydd yn dathlu ac yn cyfrannu ar ddysgu'r disgyblion.
Mae gan lywodraethwyr ymwybyddiaeth dda o waith yr ysgol ac maent yn cefnogi'r ysgol yn briodol.
Mae gan yr ysgol adnoddau pwrpasol ac addas i gefnogi'r dysgu a'r addysgu.
Mae gweithgareddau hunan werthuso rheolaidd yn parhau.

## Llwyddiant Blaenorol 23-24

| Bl.1- Cysoni gweledigaeth gref o ddysgu ac addysgu sy'n cydnabod hanfodion yr amgylchedd ddysgu wrth gefnogi dysgu effeithiol. | Bl.2-Hybu ymhellach y defnydd o weithgareddau hybu lles, gofal personol a gwydnwch ar draws yr ysgol | Bl.3-Gwneud defnydd o gynllunio gofalus ar lawr dosbarth sydd yn sicrhau gwahaniaethu pwrpasol ac effeithiol i ymateb i ofynion pob plentyn |
|---|---|---|
| Adolygu polisi dysgu ac addysgu.<br>Roedd cyfle i ail-ymweld ac ail-gyflwyno a stratgeathau amrywiol oedd yn cefnogi dysgu ac addysgu.<br>Teithiau dysgu amrywiol yn dathlu arfer dda yn ogystal a adnabod meysydd datblygu.<br>Gwariant ar adnoddau penodol i ddatblygu strategaeth darnau rhydd. | Buddsoddwyd mewn hyfforddiant staff<br>Buddsoddwyd mewn cynnal adnodd cefnogi dyddiol i ymateb i ystod eang o anghenion personol ar draws yr ysgol.<br>Sefydlwyd trefniadaeth ADY gadarn ar draws yr ysgol. | Trafodaethau staff rheolaidd gyda ffocws ar agweddau o ddysgu ac addysgu<br>Ymwybyddiaeth staff o wahaniaethu ar lawr dosbarth wedi datblygu.<br>Gweithgareddau monitro cyson yn ystod y flwyddyn gan gynnwys teithiau dysgu amrywiol a chraffu llyfrau.<br>Ffocws barhaus ar sicrhau y safonau uchaf o fewn y dysgu a'r addysgu |

Blaenoriaethau Gwella 24-25

| BL.1 - Datblygu ymhellach ein darpariaeth o fewn cymuned ein hysgol sydd yn ymateb i anghenion iechyd, lles a gofal pob dysgwr | Bl.2 - Parhau i osod ffocws ar godi safonau iaith a llythrennedd Y Gymraeg ar draws yr ysgol. | Bl.3 - Adolygu a a datblygu darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu medrau darllen. |
|---|---|---|
| Parhau i wella darpariaeth i gefnogi anhgenion ein dysgwyr<br>Monitro ac asesu agweddau ein disgyblion a chefnogi ble bo angen<br>Gweithredu rhaglen cefnogi 'My Happy Mind'<br>Monitro presenoldeb ar draws yr ysgol gan hybu ac annog pwysigrwydd presenoldeb da | Adolygu cyfleoedd ble mae disgyblion yn gallu defnyddio medrau llafar.<br>Hybu y defnydd o weithgareddau llafar a sefyllfaoedd ble mae angen i ddysgywr ddefnyddio'r Gymraeg i gyfathrebu<br>Cyflwyno a gweithredu cynllun Drilio Disgliar | Cynnal arolwg o gyfloedd datblygu medrau darllen<br>Adolygu polisi ysgol<br>Monitro ac asesu medrau darllen<br>Codi proffil darllen |

Cymorth Allanol a gaiff yr ysgol i'n cenogi i gyflawni'r Blaenoriaethau Gwella 24-25

Awdurdod Lleol
GwE
Ysgolion Clwstwr Morgan Llwyd
Rhaglen Parneriaeth Ysgolion
Gwaith Ymchwil
Asiantaethau Amrywiol

| | | |
|---|---|---|
| *Parch* | *Cymraeg* | *Ein Gorau* |